

[Type text]

# Comisiwn y Cynulliad Assembly Commission

CCCC 2014 (Papur 2 Rhan 1)

Agoriad swyddogol y Pedwerydd Cynulliad

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



Dyddiad: 14 Mawrth 2011

Amser: 17.00

Lleoliad: Ystafell Gynadledda 4B

Enw a rhif ffôn yr awduron: Natalie Drury-Styles, estyniad 8563,

Delyth Lewis, estyniad 8550

## Agoriad swyddogol y Pedwerydd Cynulliad

*Paratowyd y papur hwn i'w ystyried gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Penderfynwyd ei bod yn addas ei gyhoeddi wedi iddo gael ei ystyried yn unol â rheolau'r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes. Ni chaniateir i gynnwys y papur hwn gael ei gyhoeddi na'i ddatgelu'n rhy gynnar oherwydd gallai hyn ddylanwadu ar drafodaethau'r Comisiwn.*

### 1.0 Diben a chrynodeb o'r materion

- 1.1 Yn ei gyfarfod ar 27 Ionawr 2011, cytunodd Comisiwn y Cynulliad ar yr egwyddorion a fyddai'n sail i drefniadau'r agoriad ac roedd yn croesawu'n frwd y nod o ddarlunio amrywiaeth Cymru gan sicrhau nad oes neb yn y gymuned yn teimlo eu bod yn cael eu heithrio.
- 1.2 Ers hynny, mae tîm cynllunio'r agoriad wedi cynnal nifer o gyfarfodydd ac wedi cael trafodaethau ag unigolion, yn gyffredinol mewn perthynas â rhaglen ddeuddydd gyfan yr agoriad ac yn benodol ynglŷn â'r dathliad aml-ddiwylliant. Buom yn brysur yn edrych ar sut y mae modd dangos sut y gellir cyflawni egwyddorion cynhwysiant, amrywiaeth a dathlu cyraeddiadau'r Cynulliad yn ymarferol, a dangos beth y gallai'r rhaglen ei chynnwys.
- 1.3 Mae'r tîm cynllunio wedi gofyn barn nifer o bobl, yn cynnwys Comisiynwyr, cynrychiolwyr grwpiau crefyddol a sefydliadau diwylliannol, am neges gyffredinol y digwyddiad ac am

awgrymiadau manylach ynglŷn â'r rhaglen. Mae cysylltiad penodol wedi'i feithrin ag Ysgrifennydd y Cyngor Rhyngffydd, sydd hefyd yn Brif Weithredwr Cytûn, y sefydliad Eglwysi Ynghyd yng Nghymru, ac sy'n brofiadol mewn trefnu digwyddiadau aml-ddiwylliant llwyddiannus.

1.4 Mae nifer o opsiynau wedi'u hystyried i adlewyrchu'r pwyntiau a nodwyd yng nghyfarfod y Comisiwn ym mis Ionawr, pan gytunwyd bod Canolfan Mileniwm Cymru'n lleoliad priodol ar gyfer digwyddiad dathlu. Y bwriad yw y bydd y digwyddiad yn dathliad eang, yn cynnwys cynrychiolwyr o gredoau gwahanol a fydd yn cael eu gwahodd a'u hannog i gyfrannu mewn modd a fydd yn berthnasol iddynt hwy, ac i wneud cyfraniad o ddewis iddynt hwy. Bwriedir i'r digwyddiad gynrychioli'r Gymru fodern, ddatganoledig gymaint ag sy'n bosibl, i ddangos yr amrywiaeth diwylliannol sydd gennym yma a chynrychioli'r gymdeithas Gymreig, i gynnwys pobl sy'n credu a phobl nad ydynt yn credu.

## 2.0 Argymhellion

2.1. Gwahoddir Comisiwn y Cynulliad i gymeradwyo cynnal dathliad aml-ddiwylliant, cynhwysol a fydd yn cynrychioli'r gymdeithas yng Nghymru.

## 3.0 Trafodaeth

3.1 Mae'r dathliad aml-ddiwylliant yn gyfle i'r Cynulliad ymgysylltu â grwpiau cymunedol, grwpiau crefyddol, corau a grwpiau celfyddydau perfformio o Gymru benbaladr i'w gwahodd i gymryd rhan yn Agoriad Swyddogol y Pedwerydd Cynulliad.

3.2 Gobeithiwn, drwy weithio mewn partneriaeth â Chanolfan Mileniwm Cymru a'i rhaglen allgymorth, y bydd cyfres o berfformiadau'n cynrychioli amrywiaeth y Gymru fodern i'w gweld ar lwyfan y Lanfa drwy gydol y prynhawn. Mae'n bosibl y bydd y cyfraniadau hyn yn cynnwys dawnsfeydd, barddoniaeth, caneuon a darlenniadau a fyddai'n hyrwyddo thema gyffredinol cynhwysiant a chydarddoldeb ac efallai'n cyflwyno gobeithion a dyheadau'r perfformwyr ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad. Byddai hyn yn agored i'w fwynhau gan holl ymwelwyr y Ganolfan.

- 3.3 Byddai'r perfformiadau'n diweddu â dathliad aml-ddiwylliant awr o hyd yn Stiwdio Weston, Canolfan Mileniwm Cymru, i gynnwys cyfraniadau gan grwpiau crefyddol a diwylliannol (y byddant wedi perfformio yn gynharach yn y dydd o bosibl), ac yna swper ysgafn i westeion gwahoddedig yn y Senedd.**
- 3.4 Fel rhan o'r dathliad ehangach, gwahoddir grwpiau crefyddol o Gymru benbaladr i gynnwys y Cynulliad Cenedlaethol yn eu gweddïau a'u heiriolaeth dros yr wythnos honno.**